Hawdd ei Ddeall

# SWEF

## Cyllid i bobl ifanc ddatblygu eu busnes



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**SWEF – Meini prawf Cyllido Busnes**'.

**2024**

# Am y llyfryn yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:




**Gwefan:** www.communityfoundationwales.org.uk



**E-bost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am y llyfryn yma .......... 2**

**Cyflwyniad .......... 4**

**Nodau'r Gronfa .......... 5**

**Faint ydych chi'n gallu gwneud cais amdano .......... 6**

**Sut i wneud cais .......... 12**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 .......... 13**

**Geiriau Anodd .......... 16**

# Cyflwyniad




Mae’r ddogfen yma am **gyllid SWEF**.

Mae’n dweud:



- Beth ydy nod y gronfa.



- Pwy sy’n gallu gwneud cais.



- Faint rydych chi’n gallu gwneud cais amdano.




- Sut i wneud cais.

# Nodau'r Gronfa



Mae'r gronfa yma i helpu pobl ifanc i ddatblygu eu busnes. Mae ar gyfer pobl rhwng 18 a 30 oed.

**Nod y gronfa yma ydy cefnogi:**



- Pobl ifanc sydd wedi cael llai o gyfleoedd wrth dyfu i fyny.



- Rhai sy'n wynebu heriau wrth gael arian i fuddsoddi yn eu busnes.
- Pobl sydd ddim yn gallu cael arian o lefydd eraill.




Mae'r cyllid yma ar gael i helpu gyda gwahanol gostau busnes.



Fe ddylech chi allu dangos sut y bydd yn helpu'ch busnes i dyfu.

# Faint ydych chi'n gallu gwneud cais amdano



Mae busnesau sydd wedi bod yn rhedeg ac yn gwneud arian yn gallu gwneud cais am hyd at 2 fil o bunnoedd.




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £500, os:

- mae gennych chi fusnes newydd sydd ddim wedi gwneud arian eto
- Neu rydych ar fin dechrau masnachu o fewn y mis neu ddau nesaf.

**Enghreifftiau o beth rydych chi'n gallu defnyddio cyllid ar ei gyfer:**



- Offer i wneud mwy o gynhyrchion neu wneud cynhyrchu yn gyflymach.
- Offer i helpu i wneud mwy o arian os oes galw.
- Deunyddiau ar gyfer cynnyrch newydd.
- Datblygu cynhyrchion newydd.
- Gwneud sampl neu fodel i'w brofi. Mae hyn yn cael ei alw yn brototeipiau. Ond dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r arian i ddatblygu ap.
- Hyfforddiant.
- Creu gwefan a system archebu.

**Enghreifftiau o beth dydych chi ddim yn gallu defnyddio cyllid ar ei gyfer:**



- Busnesau anghywir ac anghyfreithlon. Er enghraifft, cynhyrchion tybaco / anweddu, pornograffi, trais, gwahaniaethu.
- Hyrwyddo crefydd neu wleidyddiaeth.
- Teithio dramor.
- Gweithgareddau mae **corff cyhoeddus** yn gofalu amdanyn nhw.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn cael arian gan y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, fel ysbytai, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Ond maen nhw ar wahân i'r Llywodraeth ei hun.

- Cyflogau.
- Biliau rhent a chyfleusterau.
- Talu eich benthyciad.
- Gwneud pethau ar gyfer llinell cynnyrch sy'n bodoli eisoes.
- Talu am danysgrifiadau meddalwedd. Dyma pryd y byddwch yn gwneud taliadau rheolaidd.
- Cyfrifiaduron newydd, ffonau a thabledi. Dim ond rhai ail-law sydd yn cael eu caniatau.
- Datblygu meddalwedd neu ap.
- Offer neu gynhyrchion ar gyfer triniaethau harddwch.

## Pethau pwysig i'w gwybod:



- Dydyn ni ddim yn gallu talu am unrhyw beth sydd wedi digwydd o'r blaen:



  – Rydyn ni'n anfon llythyr cynnig atoch.




  – Rydych chi'n anfon copi wedi'i lofnodi o'r telerau ac amodau atom.




- Rhaid i chi wario'r holl arian o fewn 1 mis i dderbyn ein llythyr cynnig.



- Rhaid i chi ddangos yn glir yn eich cais pam mae angen yr arian yma.




- Does dim rhaid i chi dalu'r arian yma yn ôl.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod chi angen yr arian.



Rhaid i'ch busnes fod yn brif swydd i chi. Neu mae'n rhaid i chi gynllunio i'w wneud yn brif swydd i chi yn fuan.



Mae angen i chi egluro sut y bydd y cyllid yn helpu'ch busnes i dyfu.

**Rydych chi'n gallu gwneud cais os:**



- Ydych chi rhwng 18 a 30 oed.



- Yn byw yng Nghymru a bod gennych chi fusnes yng Nghymru.




- Rydych chi wedi bod yn rhedeg eich busnes am ddim mwy na 2 flynedd.



- Rydych chi ar ddechrau eich busnes ac yn bwriadu dechrau masnachu'n fuan.



- Rydych chi wedi'ch cofrestru fel unig fasnachwr neu gwmni cyfyngedig. Os ydy eich busnes wedi'i gofrestru fel Partneriaeth, rhaid i'r partner arweiniol fod rhwng 18 a 30 oed.



- Rhai di chi fod yn berchen ar yr holl fusnes neu fod yn gyfranddaliwr mwyafrifol.




- Rhaid i chi fod yn gweithio yn llawn amser ar y busnes neu yn cynllunio i wneud hynny yn fuan.




- Mae gennych chi gyfrif banc busnes neu rydych chi'n sefydlu un.



Fyddwn ni ddim yn derbyn ceisiadau am syniadau busnes yn unig. Mae'n rhaid i chi ddangos tystiolaeth eich bod yn gwneud pethau i gychwyn eich busnes.

## Sut i wneud cais





Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein.




Gallwch gael y ddwy ffurflen gais ar ein gwefan: https://communityfoundationwales.org.uk/cy/swef-grantiau-menter-a-busnes

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015



Mae hon yn deddf am wella bywyd yng Nghymru i bobl nawr, ac yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni amcanion y ddeddf yma, mae'n rhaid i ni:



- Meddwl am sut mae ein penderfyniadau yn gallu effeithio ar bobl yn y dyfodol.



- Gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill.



- Gweithio gyda'n gilydd i stopio problemau fel **tlodi**, **anghydraddoldeb iechyd** a **newid yn yr hinsawdd**.







**Tlodi** ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.

Mae **anghydraddoldeb iechyd** yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.

Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd pethau fel y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio sy'n niweidio'r blaned.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau gydweithio'n well.



Rydyn ni eisiau i sefydliadau feddwl am sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â gwaith arall sy'n digwydd.



Yn eich cais, meddyliwch am y pethau yma.



Esboniwch eich cynlluniau ar hyn o bryd a'r dyfodol. Rydyn ni eisiau gweld sut rydych chi'n bwriadu gweithio gydag eraill.

# Geiriau Anodd

### Anghydraddoldeb iechyd

Mae anghydraddoldeb iechyd yn meddwl nad ydy pobl bob amser yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da. Er enghraifft, efallai oherwydd lle maen nhw'n byw.

### Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn cael arian gan y Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, fel ysbytai, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Ond maen nhw ar wahân i'r Llywodraeth ei hun.

### Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn meddwl newid tymheredd ac amodau'r ddaear. Mae'n cael ei achosi gan bethau fel olew a nwy.

### Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan rywun ddigon o arian i fyw arno.